Cynllun Datblygu Lleol Sir Gaerfyrddin - Fersiwn Cyn-adneuo o'r Strategaeth a Ffefrir
Holiadur - Nodiadau Cyfarwyddyd

Bwriad y nodiadau cyfarwyddyd hyn yw eich helpu i ddefnyddio a llenwi'r ffurflen hon ac i gyflwyno sylwadau. Mae fersiwn electronig o'r ffurflen ar gael ar wefan y Cyngor sef www.sirgar.gov.uk ac mae modd cael copïau papur gan yr Adain Flaen-gynllunio, Gwasanaethau Cynllunio, Cyngor Sir Caerfyrddin, 40 Heol Spilman, Caerfyrddin SA31 1LQ.
Ffôn: 01267 228818 neu e-bost: blaen.gynllunio@sirgar.gov.uk

Dylid defnyddio **ffurflen ar wahân ar gyfer pob sylw a gyflwynir** gan nodi'r ddogfen y dymunwch gyflwyno sylwadau yn ei chylch a'r mater (e.e. rhif paragraff, rhif polisi ac ati) y mae eich sylwadau'n ymwneud ag ef.

Bydd yr holl sylwadau sy'n dod i law yn agored i'r cyhoedd ac ni ellir eu trin yn gyfrinachol.

Ar ôl i'r cyfnod ymgynghori ddod i ben, bydd yr holl sylwadau sydd wedi dod i law yn cael eu cyflwyno yn ystod y cyfarfod priodol o'r Cyngor i gael eu hystyried a'u trafod. Dylid nodi na fydd y sylwadau a gyflwynir ar yr adeg hon yn cael eu rhoi i'r Arolygydd i'w hystyried yn yr archwiliad annibynnol, ond mae'n bosibl y cyfeirir atynt wrth baratoi'r dystiolaeth ar gyfer yr Archwiliad.

Adran 1 Manylion Cyswllt
(a) Os bydd Asiant yn cael ei enwi bydd unrhyw ohebiaeth gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn cael ei hanfon at yr Asiant a enwir. Os byddwch yn newid yr asiant a enwir (neu'n peidio â rhoi cyfarwyddyd iddo), chi sy'n gyfrifol am hysbysu'r Awdurdod Cynllunio Lleol (naill ai drwy anfon llythyr neu e-bost).

(b) Os ydych wedi bod yn ymatebydd yn ystod unrhyw gyfnod blaenorol o ymgynghori ynghylch y Cynllun Datblygu Lleol, nodwch eich cyfeirnod sylwadau.

(c) Os ydych yn cyflwyno sylwadau fel grŵp sicrhewch fod enw cyswllt wedi cael ei nodi'n glir. Os nad yw'n glir pwy yw'r enw cyswllt ar unrhyw un o'r deisebau sy'n dod i law, bydd y Cyngor yn defnyddio'r enw cyntaf ar y ddeiseb honno fel yr enw cyswllt.

Adran 2 Dogfennau Cyn-adneuo
Ticiwch y blwch perthnasol i ddangos pa ddogfen y mae eich sylwadau'n ymwneud â hi.

Adran 3 Cynnwys y Ddogfen
(a) Nodwch pa ran o'r ddogfen y mae eich sylwadau'n ymwneud â hi e.e. y polisi / paragraff / atodiad / tudalen / cyfeirnod safle ac ati. Llenwch ffurflen ar wahân ar gyfer pob sylw yr ydych yn ei gyflwyno.

(b) Dylid nodi os ydych yn dymuno gweld unrhyw newidiadau i unrhyw ran o'r Fersiwn Cyn-adneuo o'r Strategaeth a Ffefrir, Adroddiad Sgrinio Rhagarweiniol yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd neu Adroddiad Cychwynnol yr Asesiad Cynaliadwyedd/Asesiad Amgylcheddol Strategol, y dylech gofnodi eich sylwadau fel **gwrthwynebiad**.

(c) Defnyddiwch y bylchau a ddarperir i roi crynodeb o'ch rhesymau dros gyflwyno sylwadau.

Adran 4 Profion Cadernid

(a) Dylid llenwi'r adran hon os ydych yn cyflwyno sylwadau ar y Fersiwn Cyn-adneuo o'r Strategaeth a Ffefrir.

(b) Mae Deddf Cynllunio a Phrynu Gorfodol 2004 yn nodi mai diben archwiliad o Gynllun Datblygu Lleol (y Cynllun) yw ystyried a yw'n "gadarn". O ganlyniad, dylai unrhyw rai sy'n dymuno cyflwyno sylwadau neu wrthwynebiadau mewn perthynas â'r Cynllun ystyried a yw'r Cynllun **'heb fod yn gadarn'** yn eu barn hwy ac os felly, pa newidiadau sydd eu hangen i sicrhau ei fod yn **'gadarn'**. Mae'r adran hon yn ceisio cael gwybod a ydych o'r farn bod y strategaeth eang a gynigir gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol yn gadarn ai peidio mewn egwyddor. I ateb yr adran hon, ticiwch y blwch perthnasol mewn perthynas â'r deg prawf cadernid canlynol. Yn ogystal, nodwch fanylion ynghylch pa newidiadau y mae angen eu gwneud yn eich barn chi i sicrhau bod y cynllun yn **'Gadarn'**.

Amlinellir y profion cadernid isod:

(A) Profion Gweithdrefnol - Mae'r rhain yn ymwneud â'r gweithdrefnau a fabwysiadwyd wrth baratoi'r Cynllun:

P1 - Mae'r Cynllun wedi'i baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni gan gynnwys y Cynllun Cynnwys Cymunedau.

P2 - Cynhaliwyd Arfarniad Cynaliadwyedd mewn perthynas â'r Cynllun a'i bolisïau gan gynnwys Asesiad Amgylcheddol Strategol.

(B) Profion Cysondeb - Mae'r rhain yn ymwneud â'r cysylltiad rhwng y Cynllun Datblygu Lleol a chynlluniau, dogfennau a strategaethau perthnasol eraill:

C1 - Mae'n Gynllun defnydd tir sy'n ystyried cynlluniau, polisïau a strategaethau perthnasol eraill sy'n ymwneud â'r ardal neu ag ardaloedd cyfagos.

C2 - Mae'n ystyried polisi cenedlaethol.

C3 - Mae'n ystyried Cynllun Gofodol Cymru.

C4 - Mae'n ystyried y Strategaeth / Strategaethau Cymunedol perthnasol.

(C) Profion Cydlyniaeth ac Effeithiolrwydd - Mae'r rhain yn ymwneud â chynnwys y Cynllun:

CE1 - Mae'r Cynllun yn nodi strategaeth gydlynol y mae ei bolisïau a'i ddyraniadau yn deillio'n rhesymol ohoni a, lle mae materion trawsffiniol yn berthnasol, mae'n cydweddu â'r cynlluniau datblygu a baratoir gan awdurdodau cyfagos.

CE2 - Mae'r strategaeth, y polisïau a'r dyraniadau yn realistig ac yn briodol, maent wedi ystyried y dewisiadau amgen perthnasol ac maent yn seiliedig ar sylfaen dystiolaeth gadarn a chredadwy.

CE3 - Ceir mecanweithiau clir ar gyfer gweithredu a monitro.

CE4 - Mae'n weddol hyblyg i'w alluogi i ymdrin ag amgylchiadau sy'n newid.